**PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod ar-lein Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd Ddydd Mawrth, 6 Gorffennaf 2021 am 4.30pm..

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D. Williams | Y Cynghorydd S. Bradwick |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd T. Williams |
| Y Cynghorydd S. Morgans | Y Cynghorydd P. Howe |
| Y Cynghorydd G. Holmes | Y Cynghorydd L. Jones |

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

MS L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R. Hope, Pennaeth Dros Dro – Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu

**23 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Cox ac L. Jones

**24 Datganiad o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**25 Deddf Hawliau Dynol 1997 a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**26 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021 yn rhai cywir.

**27 Adolygiad o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac o Ddeddf Gamblo 2005**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn trafod materion perthnasol mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005, yn ogystal â materion atodol eraill sy'n codi o gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

Rhoddwyd gwybod y bu cynnydd mawr yn nifer yr Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro (TEN's) yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, cynnydd o 74 yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd hyn ei ragweld yn yr adroddiad diwethaf, a'r rheswm dros hynny yw ailagor tafarnau a chlybiau. Caiff Hysbysiadau Achlysuron Dros Dro eu defnyddio gan amlaf i wneud y gorau o'r lle sydd ar gael i gynyddu capasiti'r lleoliad o ganlyniad i gyfyngiadau'r coronafeirws. Nid oes modd i'r clybiau gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle oni bai'u bod nhw ar agor i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, felly roedd angen TEN ar sefydliadau i werthu alcohol yn yr awyr agored tra roedd y clybiau ar gau.

Ar y cyfan, mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu'n raddol, o 99 adeg yr adroddiad diwethaf i 163 yn ystod y cyfnod yma. Mae hyn, eto, yn adlewyrchiad o'r ffaith bod modd i fusnesau â thrwydded ailagor, ac roedd y mwyafrif yn geisiadau trosglwyddo.

Roedd y Cyfarwyddwr hefyd wedi nodi bod ceisiadau am drwydded bersonol a cheisiadau Goruchwyliwr Safle Dynodedig (DPS) yn parhau i fod yn gyson. Mae hyn oherwydd bod nifer o weithwyr yn y maes wedi symud i swydd arall yn ystod y cyfyngiadau, ac mae angen llenwi'r swyddi hynny nawr wrth i'r tafarnau a chlybiau chwilio am Oruchwylwyr Safle Dynodedig a deiliaid trwydded bersonol newydd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod un apêl mewn perthynas â chais am Amrywio Trwydded Eiddo wedi cael ei gyflwyno ers y cyfarfod Pwyllgor diwethaf. Rhoddwyd gwybod hefyd bod ymgeisydd White Lion Hotel wedi cyflwyno apêl. Roedd y cais yma wedi'i nodi yn yr adroddiad diwethaf fel cais i ddod, ond mae'r cais wedi cael ei ohirio erbyn hyn a bydd dyddiad newydd yn cael ei drefnu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at adran 4.3 yr adroddiad lle mae arolygiadau o eiddo a thor rheolau'n cael eu hamlinellu. Cafodd yr Aelodau gwybod bod lefel cyflawniad ar gyfer eiddo sydd wedi'u harchwilio yn 91%**%** o hyd, sy'n gyson â'r canlyniadau blaenorol, ac na chynhaliwyd arolygiadau trwyddedu penodol yn ystod y cyfnod adrodd hwn oherwydd bod swyddogion yn cynnal archwiliadau'r coronafeirws.

Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i drafod y cyfnod adrodd cyfredol sydd wedi gweld yr holl dafarnau, clybiau a bwytai trwyddedig yn ailagor yn dilyn y cyfyngiadau a gafodd eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru er mwyn brwydro yn erbyn pandemig y coronafeirws. I gychwyn, roedd y

cyfyngiadau yma'n caniatáu i'r adeilad agor yn yr awyr agored ond erbyn hyn mae modd iddyn nhw fasnachu dan do.

Rhoddwyd gwybod bod cwynion wedi cael eu cyflwyno mewn perthynas â busnesau lle nad oedden nhw'n cydymffurfio â'r canllawiau, gan gynnwys diffyg cadw pellter cymdeithasol, peidio â nodi manylion Olrhain Cysylltiadau, gwasanaeth wrth y bwrdd ac ati. Mae nifer o gwynion yn ymwneud â sŵn sy'n dod o fannau awyr agored, mae hyn wedi codi ledled RhCT, ac mae llawer o'r dryswch a rhwystredigaeth yn deillio o gemau megis pŵl, dartiau, bowlio ac ati.

Cafodd yr Aelodau wybod bod Hysbysiadau Gwella Eiddo wedi cael eu cyflwyno i'r rheiny sydd ddim yn dilyn cyngor swyddogion, a oedd yn rhoi cyfle i'r eiddo ddatrys unrhyw gamgymeriadau. Roedd hawl gan swyddogion gyflwyno Hysbysiad Cau Eiddo mewn achosion lle’r oedd enghreifftiau o dorri'r rheolau o hyd.

Ar ben hynny, mae Swyddogion wedi bod yn mynychu cyfarfodydd Pubwatch, sydd wedi ailgychwyn yn RhCT.

Rhoddwyd gwybod bod dau eiddo wedi gorfod rhoi'r gorau i werthu alcohol oherwydd absenoldeb Goruchwyliwr Safle Dynodedig.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod am broblemau'n gysylltiedig â phobl fainc dan 18 oed yn yfed alcohol a nodwyd bod yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid megis yr Heddlu, Safonau Masnach a Swyddogion Ymgysylltu â Phobl Ifainc, sydd wedi ymweld â siopau yn yr ardaloedd hynny i drafod pa ddogfennau adnabod sy'n dderbyniol a'r broblem o werthu alcohol drwy ddirprwy. Bydd swyddogion yn cael gwybod os yw rhagor o wybodaeth yn dod i law. Ar ben hynny, mae cylchoedd trafod canol tref Pontypridd ac Aberdâr wedi ailgydio yn eu gwaith ac mae'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO) yn cael ei werthuso i lywio adolygiad gan y Cabinet ym mis Medi.

O ran adennill ffioedd blynyddol, cafodd yr Aelodau wybod bod yr Adran Drwyddedu wedi penderfynu yn y lle cyntaf i beidio gorfodi talu ffioedd ar unwaith yn ystod y cyfnod oherwydd y caledi economaidd sy'n wynebu safleoedd, ond ei bod bellach yn gofyn am daliadau oherwydd gofynion y Ddeddfwriaeth. Nodwyd mai cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd hyd at 31 Mai 2021 yw £4,660.00, ac mae hynny o ganlyniad i waith caled y garfan.

Nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol o ran Deddf Gamblo 2005. Cafodd yr Aelodau wybod bod disgwyl i Ddatganiad o Egwyddor RhCT gael ei adolygu yn ystod Tymor yr Hydref ac y byddai'r broses yma'n cychwyn yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ddiolch i Garfan yr Adran Trwyddedu am ei gwaith caled parhaus a **PHENDERFYNWYD: -**

a) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Trwyddedu 2003** a;

b) Nodi cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â **Deddf Gamblo 2005.**

**28 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**29 Trwyddedau a Chofrestriadau a roddwyd o dan ddarpariaeth Pwerau Dirprwyedig yn ystod y cyfnod: 19.04.21 - 20.06.21**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned fanylion i'r Pwyllgor am y trwyddedau a'r cofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 19 Ebrill 2021 i 20 Mehefin 2021.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod yma i ben am 4.50pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX CADEIRYDD.**